# Gorchmynion cau ceg a chytundebau setlo

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

15 Mawrth 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

> *Faint o orchmynion cau ceg mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud cais amdanynt a sawl cytundeb setlo a luniwyd ers Ionawr 2010.*

Ni wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw gais am orchymyn cau ceg yn ystod cyfnod eich ymholiad.

Mae nifer y cytundebau setlo wedi'i gyhoeddi yn ein hadroddiad blynyddol. Mae'r tabl isod yn rhoi'r dolenni perthnasol i'r adroddiadau hyn sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

| Blwyddyn Ariannol Adroddiad Blynyddol | Rhif y dudalen |
|---|---|
| 2009-10 | 103 |
| 2010-11 | 115 |
| 2011-12 | 59 |
| 2012-13 | 110 |
| 2013-14 | 109 |
| 2014-15 | 162 |

Yn 2015-16, hyd at Ionawr 2016, ni chafwyd unrhyw gytundebau setlo.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF